Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Gwneud y farchnad drydan yn fwy cystadleuol i ddefnyddwyr

**Taflen ffeithiau 112** 22.02.12 www.ofgem.gov.uk

**Mae Ofgem wedi cyhoeddi cynigion i agor y farchnad drydan gyfanwerth. Y canlyniad fydd mwy o gystadleuaeth yn y farchnad ynni a bargen well i ddefnyddwyr. Rydym yn bryderus fod cystadleuaeth yn cael ei llesteirio ac na all cyflenwyr na chynhyrchwyr annibynnol brynu neu werthu'r pŵer sydd ei angen arnynt. Felly rydym yn cynnig mesurau newydd i fynd i'r afael â'r broblem hon.**

## Sut mae'r farchnad drydan yn gweithio

Er mwyn gallu gwerthu trydan i ddefnyddwyr, rhaid i gyflenwr allu prynu'r cynhyrchion cyfanwerth sydd eu hangen arno. Mae cynhyrchwyr yn gwerthu trydan drwy ei fasnachu yn y farchnad drydan gyfanwerth.

Mae angen i gyflenwyr annibynnol allu prynu'r cynhyrchion pŵer cyfanwerth hyn. Fel arfer bydd angen amrywiaeth o gynhyrchion arnynt - y rheini sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion byrdymor eu cwsmeriaid (e.e. pŵer ychwanegol os bydd y tywydd yn newid) a'r rheini sy'n eu galluogi i ddarparu rhywfaint o ddiogelwch hirdymor os bydd prisiau yn codi. Gelwir yr arfer o brynu cynhyrchion tymor hwy er mwyn diogelu yn erbyn newidiadau mewn prisiau yn 'rhagfantoli'.

Mae'r chwe chyflenwr ynni mawr - y Chwe Mawr - wedi'u hintegreiddio'n fertigol. Mae hyn yn golygu eu bod yn cynhyrchu trydan ac yn ei werthu i ddefnyddwyr. Er eu bod yn gallu prynu a gwerthu cynhyrchion yn y farchnad gyfanwerth, ac yn gwneud hynny, gallant hefyd fasnachu â'u cangen gynhyrchu eu hunain. Mae'r ffordd y mae'r Chwe Mawr yn gwerthu'r pŵer maent yn ei gynhyrchu a'r mathau o gynhyrchion maent yn eu prynu a'u gwerthu yn effeithio ar allu cyflenwyr annibynnol i brynu a gwerthu'r cynhyrchion byrdymor a hirdymor sydd eu hangen arnynt. Mae Ofgem yn bryderus nad yw'r farchnad drydan gyfanwerth yn gweithio mor effeithiol ag y gallai ar hyn o bryd. Yn benodol, rydym o'r farn y gallai'r Chwe Mawr helpu i gyflwyno amrediad mwy o gynhyrchion i'r farchnad.

## Beth yw hylifedd ac am beth rydym yn chwilio?

Mae hylifedd yn arwydd o berfformiad y farchnad. Mae'n cyfeirio at y gallu i brynu neu werthu cynnyrch, trydan yn yr achos hwn, heb achosi newid sylweddol yn ei bris a heb fynd i gostau trafodion sylweddol.

Nodwedd allweddol marchnad hylifol yw bod ganddi nifer fawr o brynwyr a gwerthwyr sy'n fodlon masnachu bob amser. Un ffordd o fesur hylifedd yw edrych ar y gyfradd corddi (h.y. sawl gwaith y caiff trydan a gynhyrchir yn y farchnad ei fasnachu ar ôl hynny).

Mae gwaith monitro Ofgem wedi canfod bod hylifedd marchnad drydan Prydain yn isel o gymharu â marchnadoedd nwyddau eraill a rhai gwledydd Ewropeaidd - yn wahanol i'n marchnad nwy sy'n cymharu'n ffafriol. Fodd bynnag, credwn y dylai marchnad hylifol wneud mwy na masnachu ar raddfa fawr yn gyffredinol, dylai ddarparu'r cynhyrchion a'r arwyddion sydd eu hangen ar gyfranogwyr yn y farchnad hefyd. Rydym wedi pennu'r amcanion canlynol ar gyfer y farchnad:

| | Amcanion marchnad pŵer gyfanwerth Prydain Fawr | Enghreifftiau o nodweddion y farchnad |
|---|---|---|
| 1 | **Argaeledd cynhyrchion sy'n cefnogi rhagfantoli** | • Amrediad o gynhyrchion pŵer ar gael yn y farchnad - gan gynnwys y rheini sy'n galluogi cwmnïau annibynnol i ddiwallu eu hanghenion hirdymor<br>• Lefel uchel o fasnachu mewn cynhyrchion allweddol<br>• Telerau masnachu rhesymol a thryloyw |
| 2 | **Prisiau cyfeiriol cadarn* wedi'u cynhyrchu ar hyd y gromlin - cyfres amser o brisiau ar gyfer cynhyrchion byrdymor a thymor hwy**<br>*Mae hyn yn golygu pris am gynnyrch a bennwyd am fod digon o waith masnachu wedi digwydd i ystyried ei fod yn adlewyrchu gwerth cywir y cynnyrch ar y farchnad | • Lefel uchel o fasnachu mewn cynhyrchion allweddol - gan gynnwys y rheini sy'n galluogi cwmnïau annibynnol i ddiwallu eu hanghenion hirdymor<br>• Bwlch cul rhwng prisiau prynu a gwerthu cynhyrchion allweddol - gan gynnwys cynhyrchion dyddiadau hwy |
| 3 | **Marchnad fyrdymor effeithiol** | • Lefel uchel o fasnachu mewn cynhyrchion byrdymor - gan gynnwys y rheini sy'n cyflenwi pŵer y diwrnod canlynol<br>• Telerau masnachu rhesymol a thryloyw<br>• Cwmnïau annibynnol yn gallu cael y cynhyrchion sydd eu hangen arnynt i fodloni newidiadau yn y galw a'r cyflenwad |

## Pam fod hylifedd yn bwysig i ddefnyddwyr?

Bydd gwella hylifedd o fudd i ddefnyddwyr mewn tair ffordd:

1. Bydd yn fwy deniadol i gwmnïau sy'n ystyried ymuno â'r farchnad.
2. Bydd mwy o dryloywder o ran prisiau a chyfle gwell i gael mwy o gystadleuaeth ym mhob rhan o'r farchnad.
3. Bydd yn sicrhau chwarae teg i gwmnïau annibynnol er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau prynu gwell ar gyfer y tymor hir.

## Beth y mae Ofgem yn ei gynnig a sut y bydd yn helpu

Mae Ofgem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r Chwe Mawr werthu 25 y cant o'r pŵer a gynhyrchir ganddynt mewn amrywiaeth o gynhyrchion dyddiadau hwy gwahanol. Mae hyn yn cynrychioli bron i hanner y pŵer a ddefnyddir gan gartrefi ac felly bydd yn gwella argaeledd y cynhyrchion allweddol i gyflenwyr annibynnol yn sylweddol. Hefyd, am ei bod yn ofynnol i'r Chwe Mawr werthu'r cynhyrchion, rydym yn disgwyl i'r arwerthiannau sbarduno ochr brynu'r farchnad - a thrwy hynny helpu cynhyrchwyr annibynnol. Yn olaf, dylai amrediad y trafodion prynu a gwerthu ym mhob cynnyrch bob mis olygu y gellir cael arwyddion prisiau cryf o'r arwerthiannau hefyd. Mae hyn o fudd i'r rheini sydd am fuddsoddi mewn cynhyrchu pŵer ym Mhrydain Fawr ac yn cefnogi cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer Diwygio'r Farchnad Drydan hefyd.

## Y camau nesaf

Daw ymgynghoriad Ofgem ynghylch ymyrryd i wella hylifedd y farchnad bŵer i ben ar 8 Mai. Ar hyn o bryd disgwyliwn gyhoeddi'r cynigion a gaiff eu ffafrio gennym yn ystod haf 2012 cyn cynnal ymgynghoriad statudol yn ystod hydref 2012, a fydd yn arwain at newid y drwydded erbyn diwedd 2012.

Mae'r cynlluniau hyn yn rhan o ddiwygiadau manwerthu ehangach Ofgem sy'n cynnwys cynigion i symleiddio nifer y tariffau a'u strwythur, sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth fwy clir a chyson a phennu safonau ymddygiad llymach ar gyfer cyflenwyr.

### Sut y gallai'r arwerthiant gorfodol weithio?

| | |
|---|---|
| Pwy fyddai'n gorfod gwerthu? | Byddai'n rhaid i'r Chwe Mawr werthu cynhyrchion allweddol bob mis. Mewn blwyddyn bydd hyn yn cyfateb i 25 y cant o'u hallbwn cynhyrchu. |
| Pwy allai brynu neu werthu? | Byddai pob cyfranogwr arall yn y farchnad yn gallu prynu neu werthu cynhyrchion drwy'r arwerthiannau. Ni fyddai'r Chwe Mawr yn gallu prynu popeth roeddent wedi'i werthu yn ôl. |
| Pa gynhyrchion fyddai'n cael eu gwerthu? | Credwn ei bod yn bwysig gwerthu amrediad o gynhyrchion hirdymor, ond byddwn yn trafod hyn ymhellach â rhanddeiliaid. |
| A fyddai modd ei addasu? | Byddai. Byddai'r trefniadau'n caniatáu i'r arwerthiant newid dros amser i ddiwallu anghenion cyfranogwyr yn y farchnad. Er enghraifft, gallai cynhyrchion newid. |
| Sut y byddai'n cael ei reoleiddio? | Byddai Ofgem yn goruchwylio. Ond byddem yn sicrhau bod cyfranogwyr yn y farchnad yn cael eu cynnwys mewn unrhyw newidiadau a wneir. |
| Ble fyddai'r cynhyrchion yn cael eu gwerthu? | Byddai'r cynhyrchion yn cael eu gwerthu ar lwyfan marchnad tryloyw, neu ar sawl llwyfan o bosibl. |

Ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd, cysylltwch â'r:

**Tîm Materion Defnyddwyr** 020 7901 7295 ebost: consumeraffairs@ofgem.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:

**Lydia Fitzpatrick, Uwch Swyddog Cyfathrebu** 020 7901 7419 ebost: lydia.fitzpatrick@ofgem.gov.uk

**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg** 020 7901 7225 ebost: chris.lock@ofgem.gov.uk